

Aseiad o'r Effaith ar y Gymraeg

2018

Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg

Teitl: Cymru Iachach - Ein Cynllun ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol	Rhif Cyfeirnod yr Asesiad (I'w lenwi gan Uned y Gymraeg): 02/05/2018				
Enw'r unigolyn sy'n llenwi'r ffurflen:	Jon Roche				
Dyddiad:	01 Mai 2018				
Arweinydd polisi:	Ifan Evans				
Manylion cyswllt:					
Math o Raglen/Prosiect <input checked="" type="checkbox"/> Polisi <input type="checkbox"/> Prosiect neu raglen <input type="checkbox"/> Deddfwriaeth <input type="checkbox"/> Ymchwil, gwerthusiad <input type="checkbox"/> Grant <input type="checkbox"/> Gwasanaethau <input type="checkbox"/> Newid busnes <input type="checkbox"/> Contractau, tendrau <input type="checkbox"/> Seilwaith <input type="checkbox"/> Adeiladu, Cyfalaf <input type="checkbox"/> TGCh <input type="checkbox"/> Arall (Nodwch isod)					
Costau: Beth a ragwelir y bydd cost oes gyfan y rhaglen/prosiect? Os yn llai na £25k, nid oes angen Asesiad llawn bob tro (gweler y canllawiau).					
O dan £25k	£25k - £49k	£50 - £249K	£250K - £1miliwn	Dros £1miliwn	
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	
O'r uchod, a oes unrhyw gostau sy'n uniongyrchol gysylltiedig â'r iaith Gymraeg?					
Pa mor hir y disgwylir i'r rhaglen/prosiect redeg?					
Hyd at 1 flwyddyn	Hyd at 2 flynedd	Hyd at 5 mlynedd	Hyd at 10 mlynedd	Dros 10 mlynedd	Anhysbys
<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input checked="" type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Dyddiadau nodedig allweddol ar gyfer y rhaglen/prosiect:					
Mae'r cynllun yn cynnwys ymrwymiad i gynnal 'trosolwg cenedlaethol o berfformiad y system iechyd a gofal ar y cyfan... a'i gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o fewn 3 blynedd'					

CAM 1: CYNLLUNIO

Beth yw nodau ac amcanion y polisi? Beth yw'r canlyniadau a ddymunir/beth sy'n angenrheidiol gan y rhaglen er mwyn iddi fod yn 'llwyddiant'?

Ar ei lefel fwyaf strategol, nod y Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol yw sicrhau cynaliadwyedd gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru yn y dyfodol. Mae'r Cynllun yn nodi'r camau gweithredu a fydd yn cael eu cymryd gan Lywodraeth Cymru, gan gynnwys mewn ymateb i'r Adolygiad Seneddol o Iechyd a Gofal Cymdeithasol yng Nghymru, i gefnogi'r GIG yng Nghymru, awdurdodau lleol, y sectorau gofal gwirfoddol ac annibynnol a gwasanaethau cyhoeddus ehangach i gyflawni'r trawsnewid sy'n ofynnol ledled Cymru i sicrhau bod gennym wasanaethau iechyd a gofal o ansawdd da, sy'n gynaliadwy, yn seiliedig ar werthoedd ac sy'n diwallu anghenion ein dinasyddion yn awr ac yn y dyfodol.

Pa ddewisiadau polisi sydd wedi'u hystyried?

a

Beth fydd yr effeithiau os *na* fydd y polisi'n cael ei weithredu?

Daeth cynllun blaenorol Llywodraeth Cymru ar gyfer Iechyd a gofal cymdeithasol, sef "Law yn Llaw at Iechyd", i ben yn 2016. Yn ystod 2017-18 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gan banel o arbenigwyr rhyngwladol. Fe gyhoeddodd yr Adolygiad Seneddol, fel yr oedd yn cael ei adnabod, ei adroddiad ym mis Ionawr 2018, a hwnnw'n cynnwys nifer o argymhellion a oedd wedi'u bwriadu i gyflawni'r trawsnewid sy'n ofynnol i sicrhau cynaliadwyedd hirdymor gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r Cynllun Hirdymor yn mynd i'r afael â'r argymhellion hyn ac yn cadarnhau'r camau gweithredu y bydd Llywodraeth Cymru yn eu cymryd yn uniongyrchol, a'r rhai y bydd yn ei gwneud yn ofynnol i ddarparwyr Iechyd a gofal cymdeithasol eu cymryd eu hunain, i sicrhau hyfywedd a chapasiti ein GIG a gwasanaethau gofal cymdeithasol i ateb y galw yn y presennol a'r dyfodol. Roedd yr Adolygiad Seneddol yn glir iawn bod patrwm presennol darpariaeth Iechyd a gofal cymdeithasol yn un 'nad yw'n addas ar gyfer y dyfodol'. Fel llawer o systemau gofal Iechyd yn rhyngwladol mae ein system ni'n wynebu pwysau sylweddol gan gynnwys pwysau o ran y gweithlu ac o ran y galw. Mae'r Cynllun wedi'i fwriadu i ddarparu model cynaliadwy ac effeithiol ar gyfer darpariaeth yn y dyfodol, gan fod y system bresennol yn anghynaliadwy yn y tymor hir.

A yw'r rhaglen yn dangos cysylltiad clir â strategaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer yr iaith Gymraeg – [Cymraeg 2050 – miliwn o siaradwyr](#)?

Mae darparwyr gwasanaethau Iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru'n ddarostyngedig i ofynion Mesur Iaith Cymru 2011 ac mae Safonau'r Gymraeg wrthi'n cael eu datblygu ar hyn o bryd yn barod i'w cyflwyno yn 2019. Yn y cyfamser, mae'r fframwaith strategol 'Mwy na Geiriau' yn nodi'r camau y mae disgwyl i ddarparwyr gwasanaethau eu cymryd i sicrhau bod siaradwyr Gymraeg yn cael gwasanaethau yn eu hiaith gyntaf. Cyfeirir at ofynion Mwy na Geiriau, gan gynnwys y 'cynnig gweithredol', yn Fframwaith Cynllunio GIG Cymru, y mae gofyn i BILLau ddangos eu bod yn cydymffurfio ag ef.

Mae Cymraeg 2050 yn cynnwys y cyfeiriad canlynol at ofynion 'Mwy na Geiriau':

“Mae'r egwyddor 'cynnig rhagweithiol' yn arbennig o berthnasol wrth ystyried gwasanaethau yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Yng Nghymru, mae'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (GIG), gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol yn cael eu cyflenwi gan bron i 200,000 o staff, ac yn y GIG mae cleifion yn rhyngweithio â'r gwasanaeth 20 miliwn o weithiau'r flwyddyn. Ni ddylid diystyru maint yr heriau. Fodd bynnag, gallai'r sector hwn wneud cyfraniad gwerthfawr wrth inni anelu at ein nod.”

Bydd y Cynllun yn cadarnhau bod Llywodraeth Cymru yn dal i fod yn ymrwymedig i Fframwaith Cynllunio cyfredol y GIG, gan gynnwys ei ofynion o ran defnyddio'r Gymraeg y mae'n ofynnol i ddarparwyr gofal iechyd ddangos tystiolaeth ohono yn eu Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.

Yn fwy arwyddocaol, bydd y Cynllun Hirdymor hefyd yn cynnwys ymrwymiad i gomisiynu datblygiad strategaeth hirdymor ar gyfer y gweithlu gan Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru. Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, bydd angen i Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried yn fanwl sut y bydd darparwyr gwasanaethau'n gallu cyrraedd Safonau'r Gymraeg, ac uchelgeisiau Gymraeg 2050 trwy wneud y defnydd gorau o gyflogaion Gymraeg yn eu gweithlu presennol, darparu cyfleoedd i'r holl staff ddysgu Gymraeg/defnyddio'r Gymraeg, a thwy recriwtio rhagor o ymarferwyr â sgiliau iaith Gymraeg yn y dyfodol.

Beth yw'r effeithiau (cadarnhaol a/neu negyddol) ar yr iaith Gymraeg yr ydych wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol

h.y. siaradwyr Cymraeg, cymunedau Cymraeg, addysg Gymraeg, dysgwyr Cymraeg, gwasanaethau sydd ar gael yn Gymraeg?

Y 'syniad mawr' yn y Cynllun yw bod newid ar y cyd yn digwydd ledled y wlad i wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol sydd wedi'u lleoli mewn cymunedau yn hytrach nag ysbytai. Mae'r trawsnewid hwn yn annhebygol o gael effaith negyddol na chadarnhaol ar y Gymraeg, gan y bydd darparwyr gwasanaethau'n dal i fod yn ddarostyngedig i ofynion statudol o ran y Gymraeg ni waeth ym mha leoliad y mae gwasanaethau'n cael eu darparu.

Mae'r Cynllun Hirdymor yn cydnabod bod angen i ddarparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ddatblygu dulliau mwy soffistigedig ar gyfer cynnal asesiadau o'r boblogaeth leol a dulliau mwy soffistigedig o gynllunio'r gweithlu fel eu bod yn gallu rhagweld a diwallu anghenion eu poblogaeth yn well, gan gynnwys eu gofynion o ran y Gymraeg. O ran datblygu'r gweithlu, mae'r Cynllun Hirdymor yn cydnabod hefyd bod gan addysg a hyfforddiant rôl allweddol o ran sicrhau bod y galw am wasanaethau yn y Gymraeg yn gallu cael ei ateb. Fel a grybwyllwyd uchod, bydd yn ofynnol i Addysg a Gwella Iechyd Cymru a Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y materion hyn yn ofalus wrth ddatblygu strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol sydd ar ddod.

Pwy yw'r rhanddeiliaid? A yw anghenion siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn cael sylw? I ba raddau y mae siaradwyr a dysgwyr Cymraeg yn debygol o ymateb yn gadarnhaol i'r cynigion?

Mae holl ddinasyddion Cymru'n rhanddeiliaid yn yr ystyr y bydd pob dinesydd yng Nghymru'n defnyddio gwasanaethau'r GIG neu wasanaethau gofal cymdeithasol ar

adegau penodol yn eu bywydau. Hefyd, y sector iechyd a gofal cymdeithasol yw'r cyflogwr mwyaf yng Nghymru o bell ffordd. Fel a grybwyllwyd uchod, ceir gofynion statudol presennol sy'n ymdrin ag anghenion siaradwyr Cymraeg ac nid yw'r Cynllun yn effeithio ar y gofynion hyn.

Pan na chwblhawyd asesiad, neu pan na chanfuwyd effeithiau, nodwch gyfrif llawn at ddibenion cadw cofnod

Pa gamau gweithredu/gwaith pellach sydd wedi'u nodi yn y cam cynllunio cychwynnol?

e.e. gofynion data, angen am adolygiad gan gymheiriaid, ymgysylltu allanol â grwpiau Cymraeg, rhestri rhanddeiliaid neu ymgynghori, cysylltu ag Uned y Gymraeg am gyngor)?

Mae tîm y strategaeth iechyd wedi ystyried pob un o'r cwestiynau yng Ngham 2 yn yr Asesiad o'r Gymraeg, ac mae wedi'i argyhoeddi nad oes unrhyw waith manwl pellach yn ofynnol ar y cam hwn, ond y bydd angen ystyried y materion a nodir uchod ac isod wrth ddatblygu strategaeth y gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol.

CAM 2: NODI AC ASESU EFFEITHIAU

Crynodeb o'r Asesiad Effaith

Crynowch yr asesiad manwl a gynhaliwyd ynghyd â'r sgoriau a ddynodwyd.

Effeithiau cadarnhaol:

Gall y Cynllun Hirdymor weithredu fel galluogwr strategol ar gyfer datblygiad pellach darpariaeth Gymraeg mewn gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru dros amser, gan y bydd yn cefnogi datblygiad ystod fwy o wasanaethau cymunedol sy'n darparu'n fwy penodol ar gyfer anghenion cymunedau lleol nag sy'n digwydd ar hyn o bryd. .

Effeithiau negyddol:

Ni ragwelir y bydd unrhyw effeithiau negyddol mewn perthynas â'r Gymraeg o ganlyniad i roi'r Cynllun Hirdymor ar gyfer Iechyd a Gofal Cymdeithasol ar waith. Un thema danategol yn y Cynllun yw ei bod yn bwysig bod darparwyr gwasanaethau'n rhoi gofal mewn ffordd sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn: gan gadarnhau'r hyn sydd o bwys i'r unigolyn – gan gynnwys iaith – ac yna gweithio i ateb y gofynion hyn, a dull mwy cydgynhyrchiol o roi gofal (gwneud *gyda'r* claf, yn hytrach nag *i'r* claf). Nid yw tîm y strategaeth wedi adnabod unrhyw ganlyniadau anfwriadol mewn perthynas â'r Gymraeg a allai ddeillio o roi'r Cynllun Hirdymor ar waith.

Cyfleoedd i hyrwyddo'r Gymraeg e.e. statws, y defnydd o wasanaethau Cymraeg, y defnydd o'r Gymraeg o ddydd i ddydd, y defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle?

Mae ailbennu gogwydd gwasanaethau at fodel sy'n fwy cymunedol, yn fwy cydgysylltiedig ac yn canolbwyntio'n fwy ar yr unigolyn yn rhoi cyfle i fyrddau iechyd a sefydliadau gofal cymdeithasol ailystyried y ffyrdd y maent yn diwallu anghenion eu poblogaethau o ran y Gymraeg, a chymryd camau i sefydlu a hybu defnydd o'r Gymraeg trwy fodelau gofal newydd y byddant i gyd yn eu datblygu ar lefel ardal leol yn y dyfodol. Bydd Llywodraeth Cymru yn cefnogi hyn fel rhan o unrhyw arweiniad neu gyngor y bydd yn ei roi i ddarparwyr gwasanaethau yn y dyfodol i ategu'r Cynllun Hirdymor.

Tystiolaeth/data a ddefnyddiwyd, gan gynnwys proffil demograffig, wrth ystyried yr effeithiau:

Wrth ddatblygu'r Cynllun, mae Tîm y Strategaeth wedi gwneud defnydd llawn o'r ystod gynhwysfawr o dystiolaeth a gasglwyd gan yr Adolygiad Seneddol, ac mae eu casgliadau (a nodir isod) wedi bod yn sail i ddatblygu cynnwys y Cynllun ei hun.

Ar wahân, ar lefel sefydliadol weithredol, mae'n ofynnol i Fyrddau Iechyd Lleol ac awdurdodau lleol gwblhau eu hasesiadau eu hunain o'r boblogaeth i adnabod anghenion o ran gofal a chymorth yn eu hardaloedd. Ni fydd unrhyw beth sydd wedi'i gynnwys yn y Cynllun yn effeithio ar y ddyletswydd hon.

Beth yw'r effaith gyffredinol debygol ar yr iaith Gymraeg os bydd y polisi hwn yn cael ei ddatblygu?	Cadarnhaol: <input type="checkbox"/>
	Negyddol: <input type="checkbox"/>
	Niwtral: <input checked="" type="checkbox"/>
	Anhysbys: <input type="checkbox"/>

Penderfyniad yn dilyn yr Aseiad	1. Dim newid sylweddol	<input checked="" type="checkbox"/>
	2. Addasu'r polisi er mwyn gwella effeithiau	<input type="checkbox"/>
	3. Parhau â'r polisi gyda mesurau lliniaru	<input type="checkbox"/>
	4. Rhoi'r gorau i'r polisi a chael gwared arno	<input type="checkbox"/>

Os ydych wedi ateb 2, 3 neu 4 uchod, atebwch y canlynol:
Sut y byddwch chi'n ymdrin â'r effeithiau hyn er mwyn gwella'r canlyniadau i'r Gymraeg? Manylion am fesurau lliniaru/pwyntiau gweithredu/dewisiadau amgen sydd wedi'u mabwysiadu er mwyn lleihau'r effeithiau negyddol a chynyddu'r canlyniadau cadarnhaol:

Amherthnasol

Os ydych yn ymgysylltu neu'n ymgynghori, beth yw eich cynlluniau? Pa gwestiynau ydych yn dymuno gofyn i randdeiliaid am yr Aseiad Effaith ar yr iaith Gymraeg a materion yn ymwneud â'r Gymraeg?

Ni fydd ymgynghoriad ffurfiol cyn cyhoeddi'r Cynllun. Cwblhawyd ymgysylltiad helaeth â rhanddeiliaid gan yr Adolygiad Seneddol, gan gynnwys mewn perthynas â darpariaeth Gymraeg, a chafwyd ymatebion gan Gomisiynydd y Gymraeg a Bwrdd Partneriaeth y Gymraeg mewn Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol.

Roedd yr adroddiad interim yn cynnwys y sylw canlynol:

“Y Gymraeg

Roedd barn gyson ymhlith rhanddeiliaid y dylai gwasanaethau gael eu darparu yn Gymraeg pryd bynnag a ble bynnag yr oedd ar ddefnyddwyr gwasanaethau angen hynny er mwyn gwella ansawdd y gwasanaethau. Dywedodd ymatebwyr fod argaeledd a safon gwasanaethau Cymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol yn amrywio. Mae hyn o bwys yng nghyd-destun dystiolaeth ryngwladol, sy'n pwysleisio pwysigrwydd cyfathrebu yn eich iaith gyntaf gyda gweithwyr iechyd a gofal proffesiynol. Mae'n arbennig o wir am bobl oedrannus, pobl â dementia neu sydd wedi cael strôc, a phlant bach sy'n siarad Cymraeg yn unig. Mae heriau recriwtio a chadw staff iechyd a gofal sy'n gallu gweithio'n hyderus yn Gymraeg wedi'u gosod yng nghyd-destun heriau recriwtio a chadw ehangach mewn sawl rhan o'r gweithlu.

Mae 'Mwy na Geiriau' yn fframwaith cryf a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru i roi arweiniad o ran trefnu bod mwy o wasanaethau cyhoeddus ar gael yn Gymraeg. Er gwaethaf hyn, ymgyrchoedd recriwtio, ac argaeledd hyfforddiant iaith Gymraeg mewn iechyd a gofal cymdeithasol, rydym yn nodi bod angen ymdrech ar y cyd i gynyddu sgiliau iaith Gymraeg yn y gweithle."

Roedd yr Adroddiad Terfynol yn cynnwys yr argymhelliad canlynol:

"Rydym yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg mewn gofal a dylid ystyried hyn wrth gynllunio'r gweithlu, gyda ffocws ar broffesiynau sy'n defnyddio profion a therapïau sy'n seiliedig ar iaith, megis therapyddion iaith, nyrsys ysgol, seicolegwyr a staff clinigol sy'n debygol o ddod i gyswilt â phlant, pobl hŷn, pobl sy'n dioddef o ddemtia a phobl â phroblemau iechyd meddwl."

CAM 3: CAMAU AR ÔL YMGYNGHORI A PHARATOI AR GYFER CYHOEDDI, MONITRO A GWERTHUSO

Ar ôl ymgynghori, pa newidiadau ydych wedi'u gwneud i fynd i'r afael ag unrhyw faterion a godwyd yn ymwneud â'r Gymraeg?

Gweler uchod

Sut byddwch yn monitro'r effeithiau parhaus wrth weithredu'r polisi?

Bydd gwaith parhaus i fonitro perfformiad BILlau ac awdurdodau lleol, gan gynnwys mewn perthynas â darparu gwasanaethau yn Gymraeg, yn parhau trwy'r ystod helaeth o drefniadau y cyfeiriwyd atynt uchod.

Amlinellwch sut byddwch yn parhau i nodi'r effeithiau wrth fonitro a gwerthuso yn y dyfodol?

Trwy drefniadau presennol, gan gynnwys y gofynion o ran y Gymraeg yn Fframwaith Cynllunio'r GIG trwy'r broses ar gyfer cymeradwyo Cynlluniau Tymor Canolig Integredig.


Unrhyw sylwadau eraill – canlyniadau parhaus gwerthusiadau, effeithiau sy'n dod i'r amlwg

4. Datganiad

Arweinydd polisi:

** Dileer fel y bo'n briodol:*

Mae'r polisi hwn / Nid yw'r polisi hwn yn effeithio ar yr iaith Gymraeg. Pan ganfuwyd effeithiau negyddol neu gyfleodd a gollwyd, mae'r diwygiadau a'r camau priodol wedi eu rhoi ar waith.

Enw:
Jon Roche
Adran:
Strategaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol
Dyddiad (au):
09 Mai 2018
Llofnod:

Dyddiadau adolygu:
Mehfin 2021

ARDYSTIAD AC ADOLYGIAD YR UWCH BERCHENNOG CYFRIFOL	
<p>Rwyf yn fodlon bod yr Asesiad o Effaith ar y Gymraeg yn adlewyrchiad cywir o'r rhaglen/prosiect yn y cam hwn o'r datblygiad. Trwy lofnodi, gallaf gadarnhau bod Safonau'r Gymraeg wedi cael y sylw priodol. Byddaf yn ail-asesu'r rhaglen/prosiect ar adegau allweddol trwy oes y rhaglen/prosiect, gan gynnwys adolygiadau polisi.</p>	
Llofnod Ifan Evans (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad 09 Mai 2018
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu
Llofnod (Uwch Berchennog Cyfrifol)	Dyddiad Adolygu